CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	5 Gorffennaf 2022
Teitl:	Cynnig i gynyddu'r Tariffau Prisiau ar gyfer Siwrneiau mewn Cerbydau Hacni
Pwrpas yr adroddiad:	1. Ystyried y bwriad i ddiwygio'r Tariffau Prisiau ar gyfer Siwrneiau mewn Cerbydau Hacni; 2. Penderfynu a ddylid cymeradwyo amrywio'r Tariffau Prisiau presennol yng Ngheredigion ar gyfer Siwrneiau mewn Cerbydau Hacni.
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Mathew Vaux – Diogelu'r Cyhoedd

Cefndir

Mae'r gwrthdaro presennol yn Wcráin wedi arwain at gynnydd sylweddol yn ein costau byw, ac yn benodol ym mhris tanwydd, sydd wedi cael effaith fawr ar ddeiliaid trwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Yn sgil hyn, mae cwmnïau tacsis Ceredigion wedi gofyn a fyddai modd ystyried cynyddu uchafswm y prisiau a godir ar hyn o bryd am deithio mewn cerbydau hacni yn ardal yr Awdurdod Lleol.

Yn unol ag Adran 65, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, gall awdurdod lleol bennu ac amrywio cyfraddau neu brisiau'r siwrneiau o fewn ei ardal leol a'r holl gostau eraill sy'n gysylltiedig ag hurio cerbyd hacni. Fodd bynnag, cyn cyflwyno unrhyw newidiadau, rhaid i'r awdurdod roi cyhoeddusrwydd i'w gynigion yn y wasg leol a chaniatáu cyfnod o bedwar diwrnod o ddeg ar gyfer unrhyw wrthwynebiadau.

Yn ystod un o'r cyfarfodydd gyda'r Cwmnïau Tacsis yn 2018, penderfynwyd y byddai cynyddu prisiau siwrneiau yn cael ei ystyried bob pedair blynedd. Cyflwynwyd y tariff presennol ym mis Ebrill 2018 ar ôl i'r cwmnïau ofyn am gynyddu'r prisiau ar yr adeg honno. Ers hynny, nid oes cynnydd wedi bod yn y prisiau.

Pan gynyddwyd y ffioedd ddiwethaf yn 2018, roedd petrol di-blwm ar gyfartaledd yn y Deyrnas Unedig yn costio £1.20 y litr ac roedd diesel yn costio £1.23 y litr. Ym mis Mehefin 2022, roedd pris petrol di-blwm ar gyfartaledd yn y Deyrnas Unedig yn costio £1.82 y litr (cynnydd o 52%), ac roedd diesel bellach yn costio £1.88 y litr (cynnydd o 53%).[1]

Ym mis Chwefror 2022, derbyniodd yr Awdurdod Trwyddedu gynnig oddi wrth gynrychiolydd ar ran y cwmnïau tacsis lleol i gynyddu prisiau siwrneiau mewn tacsis. Roedd yr ohebiaeth hon hefyd yn cynnwys manylion 46 o yrwyr trwyddedig eraill a oedd yn cefnogi'r cais i gynyddu uchafswm y prisiau a godir. Roedd y cynnig yn gofyn am gynyddu Tariffau 1,2,3,4, a 5 ynghyd â'r prisiau a'r taliadau eraill. Gweler **Atodiad A**.

[1] Ffynhonnell: Data Tanwydd yr RAC

Ar ôl i'r cais hwn ddod i law, ymgynghorwyd â'r cwmnïau ym mis Chwefror 2022 ar ffurf arolwg ar-lein, a gafodd ei anfon at bob perchennog a gyrrwr trwyddedig. Cafwyd 40 o ymatebion a nododd 39 ohonynt eu bod yn dymuno gweld y prisiau yn cynyddu. Roedd 32 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnydd arfaethedig a nodir yng nghynnig A ond roedd 7 yn anghytuno. Gallwch weld canlyniadau'r ymgynghoriad yn **Atodiad B**.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r cwmnïau tacsis ym mis Mawrth 2022 a chadarnhaodd yr aelodau eu bod yn cefnogi'r cynnydd. Mae'n amlwg bod nifer o ffactorau wedi effeithio ar y diwydiant tacsis dros y blynyddoedd diwethaf. Ymhlith y ffactorau hyn y mae pandemig y Coronafeirws, y cynnydd ym mhrisiau ceir ail-law, y cynnydd mewn costau byw a'r cynnydd yn yr isafswm cyflog. Serch hynny, y cynnydd ym mhrisiau tanwydd oedd y prif reswm dros ofyn am amrywio'r prisiau.

Y Tariff Prisiau ar hyn o bryd

Mae'r prisiau presennol ar gyfer siwrneiau mewn Cerbydau Hacni yng Ngheredigion i'w gweld yn **Atodiad C**.

Defnyddir cylchgrawn "The Private Hire and Taxi Monthly" fel y dull cydnabyddedig o gymharu'r prisiau a godir yn ardaloedd awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cylchgrawn yn cyhoeddi "tablau cynghrair" i ddangos y tariff prisiau drwy Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae un o'r tablau a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022 yn dangos mai £6.24 yw pris siwrnai dwy filltir ar gyfartaledd ar draws y Deyrnas Unedig ac mai £6 yw'r pris ar gyfartaledd yng Nghymru.

Ar hyn o bryd yng Ngheredigion, codir £5.46 am siwrnai dwy filltir ac mae'r sir yn safle 296 allan o 355 ar y Tabl Prisiau Cenedlaethol. Gallwch weld y ffigurau diweddaraf drwy fynd at: https://www.phtm.co.uk/taxi-fares-league-tables

Y Tariff Prisiau Arfaethedig

Mae'r prisiau diwygiedig sy'n cael eu cynnig gan y cwmnïau tacsis i'w gweld o dan "Gynnig A" yn **Atodiad D** yr adroddiad hwn.

Mae'r cwmnïau wedi gofyn am gynnydd ym mhob tariff, h.y. 5 ceiniog ychwanegol am bob un rhan o ddeg o filltir ym mhob tariff ynghyd â chynyddu costau ffioedd eraill sy'n gysylltiedig â theithio mewn tacsi. Er mwyn hwyluso pethau, mae'r cynnydd a ofynnir amdano i'w weld isod ar ffurf canrannau.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion cyffredinol a gasglwyd yn dilyn yr ymgynghoriad â'r diwydiant tacsis, mae'r Tîm Trwyddedu hefyd yn cynnig set amgen o brisiau i'r Cabinet ei hystyried sef "Cynnig B". Mae'r ddwy set o brisiau i'w gweld yn Atodiad D fel y gellir eu cymharu.

Y prif wahaniaeth rhwng y prisiau arfaethedig yw bod y Tîm Trwyddedu yn cynnig cynnydd ychydig yn llai ar gyfer yr hyn a godir am bob un rhan o ddeg o filltir. Hefyd, mae'r Tîm Trwyddedu yn cynnig cynnydd ychydig yn llai na'r cwmnïau tacsis ar gyfer materion megis amser aros, cario cesys a chistiau, a dwyno'r cerbyd. Nid yw'r materion hyn yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn tanwydd.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth mewn prisiau i deithwyr ar gyfer siwrneiau 2 filltir, 5 milltir a 10 milltir.

Tabl 1: Cymharu costau siwrneiau ar hyn o bryd â'r hyn sydd wedi'i gynnwys yng Nghynnig A a Chynnig B.

Siwrnai Tariff 1	**Cost ar hyn o bryd**	**Cynnig A** (Cwmnïau Tacsis)	**Cynnig B** (Tîm Trwyddedu)
Siwrnai 2 filltir	£5.46	£6.80	£6.50
Siwrnai 5 milltir	£10.56	£13.40	£12.50
Siwrnai 10 milltir	£19.06	£24.40	£22.50

Mae nifer o awdurdodau trwyddedu ar hyn o bryd yn adolygu prisiau siwrneiau ac mae hyn yn golygu bod y tabl prisiau yn newid o hyd. Fodd bynnag, os derbynnir Cynnig A, bydd y ffi ar gyfer 2 filltir o dan Dariff 1 yng Ngheredigion yn rhoi'r Awdurdod ymhlith y 100 uchaf yn Nhabl Prisiau Siwrneiau mewn Cerbydau Hacni cylchgrawn "The Private Hire and Taxi Monthly". Os derbynnir Cynnig B, bydd Ceredigion ymhlith y 125 uchaf.

Mae'r ddwy set arfaethedig o brisiau yn cymharu'n deg ac yn gystadleuol â'r rheiny a osodwyd gan ein hawdurdodau cyfagos ar gyfer siwrneiau 2 filltir:

- Sir Gaerfyrddin - £6.80
- Sir Benfro - £6.30
- Powys - £6.00 (cynnydd mewn prisiau yn yr arfaeth - Mehefin 2022)

Os cyflwynir tariff diwygiedig, hwn fyddai'r uchafswm y gellid ei godi am daith mewn cerbyd hacni. Serch hynny, gall deiliaid trwyddedau ddefnyddio eu disgresiwn a pharhau i gynnig tariff is os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Os cyflwynir tariff newydd ac os bydd perchnogion cerbydau hacni yn dymuno gweithredu'r tariffau newydd, bydd angen addasu'r mesuryddion sydd yn y cerbydau.

Ymgynghori

Yn unol ag Adran 65, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig yn y prisiau gael eu hysbysebu'n gyhoeddus fel rhan o gyfnod ymgynghori statudol â'r cyhoedd sy'n para 14 diwrnod.

Yn dilyn y cyfnod statudol, os na ddaw unrhyw wrthwynebiadau i law, daw'r tariff prisiau i rym ar unwaith. Os daw unrhyw wrthwynebiadau i law, bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad arall i ystyried y rhain. Ar y pryd hwnnw, bydd gofyn i'r Aelodau Cabinet gymeradwyo'r tariff prisiau gan ystyried a ydynt am eu haddasu ai peidio a phennu'r dyddiad y dylai'r tariff diwygiedig ddod i rym.

Argymhellion:

1. Dylai'r Aelodau ystyried y cynnig a nodir yn yr adroddiad hwn a phenderfynu a ddylid:
   a) derbyn y set o brisiau a gynigir gan y cwmnïau tacsis (Cynnig A) neu
   b) dderbyn y set o brisiau a gynigir gan y Tîm Trwyddedu (Cynnig B).

2. Yn unol ag Adran 65, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, dylai'r Cabinet gytuno bod unrhyw brisiau arfaethedig yn cael eu hysbysebu'n

	gyhoeddus fel rhan o gyfnod ymgynghori statudol â'r cyhoedd a fydd yn para 14 diwrnod.
Rhesymau dros y penderfyniad:	• Er mwyn adolygu prisiau siwrneiau mewn cerbydau hacni oherwydd y cynnydd mewn costau tanwydd a chostau byw ac ystyried eu hamrywio. • Er mwyn amrywio prisiau siwrneiau mewn cerbydau hacni yn unol ag Adran 65, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. • Er mwyn caniatáu i'r prisiau arfaethedig newydd gael eu hysbysebu'n gyhoeddus.
Trosolwg a Chraffu:	I'w gadarnhau – Trafodwyd ym Mhwyllgor Trwyddedu- 4ydd Gorffennaf
Fframwaith Polisi:	Mae'r swyddogaethau statudol a gyflawnir gan y Tîm Trwyddedu yn rhan sylfaenol o fframwaith polisi Diogelu'r Cyhoedd.
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol
Y Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:	O fewn y gyllideb
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) Act 1976
Papurau Cefndir:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams (Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)
Swyddog Adrodd:	Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu)
Dyddiad:	14 Mehefin 2022

Atodiadau:
Atodiad A – Cais y Cwmnïau Tacsis i gynyddu Prisiau Siwrneiau mewn Tacsis
Atodiad B – Canlyniadau'r Ymgynghoriad â Deiliaid Trwyddedau ynghylch Prisiau Siwrneiau mewn Tacsis 2022
Atodiad C – Prisiau Siwrneiau mewn Tacsis yng Ngheredigion ar hyn o bryd
Atodiad D – Prisiau Siwrneiau mewn Tacsis – Cynnig A a Chynnig B

Atodiad A – Cais am gynyddu Prisiau Siwrneiau mewn Cerbydau Hacni

Cyflwynwyd gan Gynrychiolydd ar ran y Cwmnïau Tacsis a 47 o Yrwyr Trwyddedig - 14 Chwefror 2022

This document has been created to show the current interest there is amongst the taxi operators in Ceredigion for or against a fare increase. The last price increase was in 2018 after it was voted FOR by the attendees at the previous meeting. A lot has changed since 2018 such as Brexit and the COVID-19 pandemic, both events have had a noticeable impact of the daily costs of both living and operating.

As we approach the Government's 2030 deadline for vehicle manufacturers to stop production of fossil fuel engines in vehicles, I think we must get ready for the impact this will have on the industry as a whole by increasing the taxi fare costs accordingly to the purchase costs of these electric cars.

In the 2018 taxi trade meeting held by Ceredigion Licencing Committee, they said they would review the taxi fares every 3 years.

TAXIS **Tariff 1**	**First ½ mile**	**Every 1/10 mile thereafter**
6.00am to 9.00pm	£2.91	£0.17
Tariff 2		
9.00pm to 12 midnight & Bank Holidays (all day)	£3.33	£0.20
Tariff 3		
12 midnight to 6.00am	£3.33	£0.23
Tariff 4		
Christmas Day & New Year's Day	£5.81	£0.32
Each additional passenger in excess of the original hirer per journey		£0.21
MINI BUSES (Maximum 8 passengers) **Tariff 5**		
6.00am to 9.00pm	£3.67	£0.26
Tariff 6		
9.00pm to 6.00am & Bank Holiday (all day)	£4.79	£0.32
Tariff 7		
Christmas Day & New Years Day	£6.66	£0.44

In all instances extras may be charged up to the following:	
Waiting time per minute or part thereof	£0.18
Cases	£0.53 each
Trunks	£1.08 each
Fouling	£53.81

TAXIS **Tariff 1**	**First ½ mile**	**Every 1/10 mile thereafter**
6.00am to 6:00pm	£3.50	£0.22
Tariff 2		
6.00pm to 12 midnight & Bank Holidays (all day)	£4.00	£0.25
Tariff 3		
12 midnight to 6.00am	£4.00	£0.28
Tariff 4		
Christmas Day & New Year's Day	£6.00	£0.37
Each additional passenger in excess of the original hirer per journey		£0.25
MINI BUSES (Maximum 8 passengers) **Tariff 5**		
6.00am to 9.00pm	£4.00	£0.31
Tariff 6		
9.00pm to 6.00am & Bank Holiday (all day)	£5.00	£0.37
Tariff 7		
Christmas Day & New Years Day	£7.00	£0.49

In all instances extras may be charged up to the following:	
Waiting time per minute or part thereof	£0.25
Cases	£1.00 each
Trunks	£1.50 each
Fouling	£100.00 per incident

Atodiad B – Canlyniadau'r Ymgynghoriad â Deiliaid Trwyddedau ynglŷn â Phrisiau Siwrneiau mewn Tacsis 2022

1. A ydych yn teimlo bod angen cynyddu Tabl Uchafswm Prisiau Cerbyd Hacni ar hyn o bryd?

Ydw	39
Nac ydw	1
Heb Benderfynu	0



2. A oes gennych gynnig arall ar gyfer cynnydd mewn Tariffau Tacsi?

Oes	8
Nac oes	26
Heb Benderfynu	6



3. Mae'r Awdurdod wedi derbyn awgrym i gynyddu'r tal a godwyd ar hyn o bryd. Gweler isod crynodeb a chopi o'r tocynnau a awgrymir ar yr e-bost rydych wedi ei dderbyn. A ydych chi'n cytuno a'r cynyddiadau arfaethedig?

   Tacsis - Cynnydd Arfaethedig.
   Cynnydd o £0.05 fesul 1/10 milltir i bob cyfradd tariff.

   Tariff 1 1/2 Milltir gyntaf - cynnydd o £2.91 - £3.50
   Tariff 2 1/2 Milltir gyntaf - cynnydd 0 £3.33 - £4.00
   Tariff 3 1/2 Milltir gyntaf - cynnydd o £3.33 - £4.00
   Tariff 4 1/2Milltir gyntaf - cynnydd o £5.81 - £6.00

Mae'r tâl am pob teithiwr ychwanegol sy'n fwy na'r llogwr gwreiddiol fesul taith yn cynyddu o £0.21 i £0.25

Newidiadau i amseroedd Tariff ar gyfer Tacsis safonol –

Tariff 1 - diwedd 6pm yn lle 9pm ar hyn o bryd.
Tariff 2 - dechrau am 6pm yn lle 9pm.
Codi tâl am faeddu i £100 y digwyddiad o £50.00
Codi tâl am fagiau o £1.08 yr un i £1.50 yr un.
Tâl am amser aros wedi codi o £0.18 i £0.25 pob munud.

Ydw	32
Nac ydw	7
Heb Benderfynu	1



4. Os oes gennych gynnig arall, rhowch fanylion.

Derbyniwyd 15 o ymatebion.

1	Rwy'n cytuno â'r uchod.
2	Nid wyf yn gwybod
3	Nid oes tariffau wedi'u rhestru ar gyfer bysiau mini.
4	Nac oes
5	Yn bersonol, rwy'n credu y dylai tariff 1 ddechrau ar £3.50, y dylai tariff 2 ddechrau ar £3.75 ac y dylai tariff 3 ddechrau ar £4.00. Rwy'n credu y dylai'r ffi am ddwyno'r cerbyd gynyddu i £75.
6	Newidiwch y tariff 2 presennol i dariff 1, ayb. Mae'r newidiadau uchod yn ormodol. Mae newid y prisiau ar gyfer dwyno'r cerbyd a'r amseroedd aros yn syniad da.
7	Shwmae? Nid wyf yn credu mai nawr yw'r amser iawn i gynyddu'r tariff o ystyried bod prisiau tanwydd ar gynnydd. Mae cwmnïau yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd ac os cyflwynir y newidiadau, bydd rhai cwmnïau yn mynd i'r wal ac ni fyddant yn dychwelyd.
8	Cynnydd o £0.10 am bob 1/10 milltir o dan bob tariff
9	Nac oes
10	Nac oes
11	Ddim yn berthnasol

12	Nac oes
13	Ddim ar hyn o bryd
14	Pam na allwn ni ddileu tariff 1 a dechrau ar dariff 2?
15	Cynnydd o £0.02 am bob 1/10 milltir o dan bob cyfradd tariff AC NID £0.05 am bob 1/10 milltir. Mae pob cynnig arall yn swnio'n rhesymol.

5. A oes gennych unrhyw sylwadau am y Tabl Prisiau Cerbyd Hacni yng Ngheredigion?

Cafwyd 22 o ymatebion

1	Os bydd y sefyllfa bresennol yn Wcráin yn parhau a bod tanwydd yn mynd yn fwy na £2.00 y litr, rwy'n credu y bydd angen edrych eto ar y prisiau hyn.
2	Mae angen cynnydd arnom am fod tanwydd wedi cynyddu yn ei bris.
3	Rwyf o'r farn bod y newidiadau arfaethedig hyn yn deg i'r darparwr gwasanaeth a'r cwsmer.
4	Nid wyf yn gwybod.
5	Yn hanesyddol, mae'r prisiau wedi bod llawer yn is yma o gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru.
6	Nac oes.
7	Rwy'n credu y dylai'r prisiau godi yn sylweddol. O blith yr holl awdurdodau trwyddedu, ni'n un o'r rhai sy'n cynnig y prisiau rhataf. Yng Ngheredigion, rydym ymhell o dan y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer tariff 1 a 2. Rydym lawer yn rhatach na'r siroedd cyfagos ac mae'n drutach byw yng Ngheredigion.
8	Mae angen cynyddu'r prisiau ond nid oes angen eu cynyddu cymaint ag y mae'r newidiadau yn ei awgrymu. Pam newid yr amserau o dan y gwahanol dariffau?
9	Mae'r cynnig yn swnio'n dda. Hefyd, beth am gael gwared â'r 'cistiau' ac ychwanegu eitemau fel beiciau yn lle hynny?
10	Rwyf o'r farn y dylent barhau fel y maent. Mae mwy o bobl y dyddiau hyn yn byw ar fudd-daliadau ac ni fyddant yn medru fforddio talu am dacsis.
11	Yn anffodus, bu'n hen bryd cael cynnydd mewn prisiau ac ar hyn o bryd mae'r diwydiant lleol yn dioddef am fod nifer fawr o yrwyr wedi gadael gan nad yw'r swydd yn talu'n dda. Mae prisiau ceir ail-law wedi cynyddu'n fawr a heb gynnydd mawr yn y prisiau, ni fydd y perchnogion yn medru fforddio uwchraddio eu ceir/fflyd, cadw lan â chyflogau, delio â chwyddiant a gwneud gwaith cynnal a chadw.
12	Nac oes.
13	Nac oes.

14	Ddim yn berthnasol
15	Oes, mae angen eu diweddaru bob blwyddyn fel y cytunwyd yn wreiddiol yn hytrach na'r ffolineb o aros 4 blynedd am adolygiad.
16	Mae gwir angen y cynnig hwn. Hen bryd! Credaf y dylai'r tariff arfaethedig fod yn ddigon i fynd i'r afael â chostau byw a gweithredu busnes tacsis yng Ngheredigion.
17	Mae'r prisiau hyn yn dda ac roedd hi'n hen bryd eu cyflwyno. Mae mawr eu hangen hefyd o ystyried bod prisiau tanwydd yn codi o hyd. Yn ogystal, rwy'n credu bod angen i'r cyhoedd gael gwybod am hyn gan mai'r gyrwyr fydd yn gorfod delio â'r lleiafrif bach o bobl a fydd yn cwyno am y prisiau.
18	Nac oes
19	Ddim ar hyn o bryd.
20	Nac oes.
21	Cytunaf yn gryf â'r tâl a godir am ddwyno'r cerbyd gan y gallech chi golli noson o waith os byddai rhywbeth yn digwydd a byddai angen i chi lanhau'r car yn drylwyr. Hefyd rwy'n cytuno â chodi'r isafswm i £3.50. Mae llawer o'r teithiau a wnaf yn mynd â mi o'r ganolfan gofal integredig newydd yn Aberaeron i'r dref ei hunan. O ystyried pris diesel y dyddiau hyn, nid oes gwerth i mi wneud y siwrneiau hyn am £2.91.
22	Credaf fod y cynnig i gynyddu'r prisiau 50c y filltir yn rhy uchel ac y bydd hyn yn effeithio ar y diwydiant yn gyffredinol. O ran tariff 1, mae'r cynnydd o £2.91 i'r gyfradd newydd o £3.50 yn iawn ond efallai mai 15/20c y filltir y dylai gynyddu ar ôl hynny.

Atodiad C – Prisiau Ceredigion ar hyn o bryd

Deddf Llywodraeth Leol [Darpariaethau Amrywiol] 1976
Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
Prisiau Siwrneiau mewn Tacsis o 20 Ebrill 2018 ymlaen

TACSIS **Tariff 1**	**½ milltir cyntaf**	**Pob 1/10 milltir ar ôl hynny**
6.00am - 9.00pm	£2.91	£0.17
Tariff 2		
9.00pm - 12 hanner nos a Gwyliau Banc (drwy'r dydd)	£3.33	£0.20
Tariff 3		
12 hanner nos - 6.00am	£3.33	£0.23
Tariff 4		
Dydd Nadolig a Dydd Calan	£5.81	£0.32
Pob teithiwr sy'n ychwanegol at y sawl sydd wedi hurio'r tacsi yn wreiddiol - fesul siwrnai		£0.21
BYSIAU MINI (hyd at 8 o deithwyr) **Tariff 5**		
6.00am - 9.00pm	£3.67	£0.26
Tariff 6		
9.00pm - 6.00am a Gwyliau Banc (drwy'r dydd)	£4.79	£0.32
Tariff 7		
Dydd Nadolig a Dydd Calan	£ 6.66	£0.44

Ym mhob achos, gellir codi tâl ychwanegol heb fod yn fwy na'r canlynol:	
Amser aros fesul munud neu ran o funud	£ 0.18
Cesys	£ 0.53
Cistiau	£ 1.08
Dwyno'r cerbyd	£ 53.81

Atodiad D – Cyfraddau Prisiau Tacsis Cynnig A a Chynnig B

<u>Cynnig A</u> – a gynigir gan Gwmnïau Tacsis Ceredigion

Deddf Llywodraeth Leol [Darpariaethau Amrywiol] 1976 / Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 – Prisiau Siwrneiau mewn Tacsis

TACSIS **Tariff 1**	**½ milltir cyntaf**	**% +**	**Pob 1/10 milltir ar ôl hynny**	**% +**
6.00am - 9.00pm	£3.50	20.27 %	£0.22	29.41%
Tariff 2				
9.00pm - 12 hanner nos a Gwyliau Banc (drwy'r dydd)	£4.00	20.12 %	£0.25	25.00%
Tariff 3				
12 hanner nos - 6.00am	£4.00	20.12 %	£0.28	21.73%
Tariff 4				
Dydd Nadolig a Dydd Calan	£6.00	32.00 %	£0.37	15.62%
Pob teithiwr sy'n ychwanegol at y sawl sydd wedi hurio'r tacsi yn wreiddiol - fesul siwrnai			£0.25	19.04%
BYSIAU MINI (hyd at 8 o deithwyr) **Tariff 5**				
6.00am - 9.00pm	£4.00	8.99%	£0.31	19.23%
Tariff 6				
9.00pm - 6.00am a Gwyliau Banc (drwy'r dydd)	£5.00	4.38 %	£0.37	15.6%
Tariff 7				
Dydd Nadolig a Dydd Calan	£7.00	5.10 %	£0.49	11.36%

		% +
Ym mhob achos, gellir codi tâl ychwanegol heb fod yn fwy na'r canlynol:		
Amser aros fesul munud neu ran o funud	£0.25	38.88 %
Cesys	£1.00 am bob un	88.67%
Cistiau	£1.50 am bob un	38.88%
Dwyno'r cerbyd	£100.00 y digwyddiad	85.83%

Cynnig B – a gynigir gan Dîm Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion

Deddf Llywodraeth Leol [Darpariaethau Amrywiol] 1976 / Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 – Prisiau Siwrneiau mewn Tacsis

TACSIS **Tariff 1**	**½ milltir cyntaf**	**% +**	**Pob 1/10 milltir ar ôl hynny**	**% +**
6.00am - 9.00pm	£3.50	20.27 %	£0.20	17.64%
Tariff 2				
9.00pm - 12 hanner dydd a Gwyliau Banc (drwy'r dydd)	£4.00	20.12 %	£0.24	20.00%
Tariff 3				
12 hanner nos - 6.00am	£4.00	20.12 %	£0.27	17.4%
Tariff 4				
Dydd Nadolig a Dydd Calan	£6.00	3.27%	£0.37	15.62%
Pob teithiwr sy'n ychwanegol at y sawl sydd wedi hurio'r tacsi yn wreiddiol - fesul siwrnai			£0.25	19.04%
BYSIAU MINI (hyd at 8 o deithwyr) **Tariff 5**				
6.00am - 9.00pm	£4.00	8.99%	£0.30	19.23%
Tariff 6				
9.00pm - 6.00am a Gwyliau Banc (drwy'r dydd)	£5.00	4.38 %	£0.37	15.6%
Tariff 7				
Dydd Nadolig a Dydd Calan	£7.00	5.10 %	£0.49	11.36%

		% +
Ym mhob achos, gellir codi tâl ychwanegol heb fod yn fwy na'r canlynol:		
Amser aros fesul munud neu ran o funud	£0.20	11.11%
Cesys	£0.60 am bob un	13.20%
Cistiau	£1.30 am bob un	11.11%
Dwyno'r cerbyd	£70.00 y digwyddiad	30.08%